**Bwrdd y Coleg, 16 Hydref 2024 (11:00 – 14:00), Chwaraeon Cymru, Caerdydd**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | William Callaway |
| | Nia Elias |
| | Dr Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Meri Huws |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd (Teams) |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas (Teams) |
| **Sylwedydd:** | Deio Owen (Llywydd, UCM Cymru) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Addysg Bellach a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |
| | Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |

**Ymddiheuro:** Angharad Roberts

**Cofnodion Cyfarfod 16 Hydref 2024 – cyfarfod llawn**

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Deio Owen i'w gyfarfod cyntaf fel Llywydd UCM Cymru. | | |
| 1.3 | Nodwyd ymddiheuriad fel uchod. | | |
| 1.4 | Estynnwyd cydymdeimlad i Llinos Roberts a Dr Lowri Morgans ar eu profedigaethau diweddar. | | |
| 1.5 | Nodwyd y byddai rhai o'r uwch reolwyr yn gwrando ar y cyfarfod. | | |

## 2. Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd yr Athro Enlli Thomas yn y cyfarfod* | | |

### 3. Diweddariad ar Medr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cyflwynwyd diweddariad ar faterion yn ymwneud â'r dynodiad i gynghori Medr gan y Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu. | | |
| 3.2 | Adroddwyd ar y cyngor cychwynnol a gyflwynwyd gan y Coleg i Medr ar 10 Medi.<br>Adroddwyd hefyd ar ymateb cychwynnol y Coleg i Gynllun Strategol drafft Medr sy'n ymrwymo i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol. | | |
| 3.3 | Trafodwyd rhai materion yn ymwneud â Chynllun Strategol drafft Medr ac ymateb y Coleg maes o law i'r ymgynghoriad ar rheoleiddio. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.4 | Derbyniwyd y diweddariad. | | |

**4. Bil y Gymraeg ac Addysg (Eitem 5)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig y Coleg ar Bil y Gymraeg ac Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu. | | |
| 4.2 | Adroddwyd ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Bil a'r broses ddeddfu. Amlinellwyd safbwynt cyffredinol y Coleg ar y Bil. Adroddwyd y byddai'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu yn rhoi tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 17 Hydref. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Iwan Evans, Lucy Evans, Alan Jones a Bethan Webb, swyddogion Llywodraeth Cymru, ac fe'u croesawyd i'r cyfarfod.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Rhoddwyd cyflwyniad gan Bethan Webb ar Bil y Gymraeg ac Addysg gan gynnwys yr amserlen. | | |
| 4.4 | Holwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd. | | |
| 4.5 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd cefnogaeth y Coleg i'r Bil. Gofynnwyd am eglurder ynghylch p'un ai mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn y Bil yn cwmpasu addysg drydyddol ai peidio, a nodwyd barn y Coleg y dylid ei chwmpasu. Yn ogystal, nodwyd yr angen i ddiffinio'r gwahaniaeth rhwng dysgu Cymraeg ail iaith, dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. | | |
| | *Diolchwyd i swyddogion y Llywodraeth am y cyflwyniad cyn iddynt ymadael. Ar y pwynt hwn ymadawodd yr Athro Enlli Thomas hefyd.* | | |

## 5. Trafodaeth ar Bil y Gymraeg ac Addysg (caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Trafodwyd nifer o sylwadau yn deillio o'r cyflwyniad i'w hategu wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.2 | Trafodwyd sefyllfa fregus y Gymraeg fel pwnc a'r angen i'w warchod fel disgyblaeth er mwyn diwallu anghenion y Bil. | | |
| 5.3 | Dymunwyd yn dda i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu wrth rhoi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 17 Hydref. | | |

## 6. Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Diolchwyd i William Callaway ar achlysur ei gyfarfod olaf am ei wasanaeth ar hyd ei ddau dymor fel aelod o'r Bwrdd ac fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. | | |

## 7. Eitem 7 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 20 Tachwedd 2024, Wrecsam<br>• 26 Mawrth 2025, Aberystwyth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • 25 Mehefin 2025, De-ddwyrain | | |
| 7.2 | Diolchwyd i gwmni Nico am gyfieithu ar y pryd. | | |